# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20fed Mehefin 2011 yn Siambr y Cyngor, Rhuthun. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.45 y bore.

**PRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| D Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Kelly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro yr Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); R Fairhead (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G W Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Cyhoeddus); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Roberts (Pennaeth yr Adran Gyfleusterau); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DIGWYDDIAD DIFRIFOL

1.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân y diweddaraf i'r Aelodau am y tân mewn carafan yn Nhalybont a ddigwyddodd ar 11eg o Fehefin. Roedd dau ddyn o'r un teulu wedi colli eu bywydau, ac roedd merch ddwyflwydd oed wedi cael llosgiadau difrifol. Mae'r swyddogion yn holi am ei chyflwr bob dydd.

1.2 Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad a'u diolch i'r ddiffoddwyr tân a fu'n ymwneud â'r digwyddiad.

2 DATGANIADAU O FUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 21ain o Fawrth 2011 i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd adroddiad y Cadeirydd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau y bu'r Cyng. S Frobisher a'r Cyng. A M Jones ynddynt rhwng 22ain o Fawrth a 20fed Mehefin 2011 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 YMGYNGHORIAD 2011 AR Y CYNLLUN CYFUNOL I LEIHAU RISG A GWELLA

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn am gadarnhad yr Awdurdod ynglŷn â phenderfyniad a wnaed gan y Panel Gweithredol mewn perthynas â'r cynnwys a'r trefniadau ymgynghori ar gyfer y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2012-13.

6.2 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod Cynllun Cyfunol presennol yr Awdurdod i Leihau Risg a Gwella, a gyhoeddwyd yn mis Hydref 2010, yn cynnwys saith amcan ar gyfer gwella, a'r rheini'n ymwneud ag effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaeth, argaeledd gwasanaeth, cynaliadwyedd a thegwch, yn 2011/12 a thu hwnt. Roedd 21 o gamau yn codi o'r saith amcan hynny, a bydd nifer ohonynt yn cymryd mwy na blwyddyn i'w cyflawni. Felly, cynigir parhau gyda'r un amcanion, a diweddaru'r cynllun gweithredu ar gyfer 2012/13.

6.3 Gyda chytundeb yr Awdurdod, bydd ymgynghoriad 2011 ar y cynllun cyfunol yn daflen ddwyieithog driphlyg yn cynnwys crynodeb byr o'r saith amcan, gyda rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod.

6.4 **PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniadau'r Panel Gweithredol ar gynnwys y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2012-13, a'r broses ymgynghori gysylltiedig.**

7 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER 2010-2011

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Trysorydd, sef un o ofynion blynyddol gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Mae'r adroddiad yn nodi gweithgarwch y trysorlys a'r gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2010-2011 yn unol â gofynion y Cod Materion Ariannol.

7.2 Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2011; nid oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent ychwaith yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, ac felly roeddent wedi argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

7.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2010-2011.**

Cyrhaeddodd y Cyng. M Ll Davies ar yr adeg hon.

8 PERFFORMIAD ARIANNOL 2010-2011

8.1 Roedd yr adroddiad wedi darparu arolwg i'r Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2010-11.

8.2 Esboniodd y Trysorydd iddi fod yn flwyddyn eithaf da o ran peidio â mynd y tu hwnt i'r gyllideb. Dyma'r ail flwyddyn yr oedd yr Awdurdod wedi cael cadw cronfeydd wrth gefn o ganlyniad i newidiadau yn y ddeddfwriaeth. Roedd yr Awdurdod wedi cadw £418,000 mewn cronfeydd wrth gefn, fel yr oedd pethau ar 1 Ebrill 2010, ac oherwydd rheolaeth effeithiol o'r gyllideb, nid oedd wedi gorfod defnyddio'r cronfeydd hyn i ariannu gwariant o fewn y flwyddyn.

8.3 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mehefin 2011, ac yn y cyfarfod hwnnw nid oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent ychwaith wedi canfod unrhyw risgiau mawr. Argymhellodd y Pwyllgor drosglwyddo'r tanwariant o £626,741 i Gronfa Gyffredinol wrth gefn.

8.4 I ateb cwestiynau'r Aelodau ynglŷn â thanwariant ymddangosiadol dan rai penawdau yn y gyllideb, esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn gyda deiliaid y gyllideb. Pan welir bod tanwariant yn cael ei amcangyfrif mewn un adran, bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i adran arall er mwyn gallu prynu offer yn gynt na'r disgwyl, a thrwy hynny leddfu'r pwysau ar y gyllideb y flwyddyn wedyn.

8.5 Gofynnodd y Cyng. D Kelly am y llinell incwm yn y gyllideb a'r gwahaniaeth rhwng y gwir incwm a'r incwm disgwyliedig. Esboniwyd i'r Aelodau fod y grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio at argyfyngau wedi ei dynnu yn 2010/11; fodd bynnag, nid oedd hyn wedi effeithio'n sylweddol ar waith y Gwasanaeth o ran cynllunio at argyfyngau. Mae'r cynllunio at argyfyngau yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ar y cyd ag awdurdodau lleol mewn perthynas â safleoedd 'Rheoli Peryglon Argyfyngau Mawr' (COMAH) a risgiau eraill o fewn ardal gogledd Cymru.

8.6 Nodwyd bod yr incwm am Alwadau Gwasanaethau Arbennig yn llai na'r disgwyl oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y mae'r Awdurdod yn rhoi anfoneb amdanynt. Mae'r galwadau gwasanaethau arbennig yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir y tu allan i ddyletswyddau statudol yr Awdurdod, a rhai ohonynt am dâl.

8.7 Bu gostyngiad yn yr incwm a enillwyd oherwydd cyrsiau hyfforddi allanol, yn enwedig diogelwch tân masnachol. Gwnaed penderfyniad i ddiddymu'r gwasanaeth hwn oherwydd y byddai cyflwyno'r neges diogelwch tân cymunedol i'r gymuned fusnes yn gyffredinol yn ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau. Roedd y Cyng. M Ll Davies wedi bod ar un o'r cyrsiau yn ddiweddar, ac yn teimlo ei fod yn gwrs gwerthfawr i fusnesau.

8.8 Gofynnodd y Cyng George am y gorwariant ar bensiynau, a ph'un ai yr oedd angen i'r Awdurdod fod yn ymwybodol o unrhyw faterion. Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y swyddogion yn rheoli ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ofalus, ac er bod darpariaeth bensiynau ar gael i ariannu unrhyw orwariant, nid oedd wedi cael ei ddefnyddio hyd yn hyn.

8.9 **PENDERFYNWYD cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant diwedd blwyddyn i Gronfa Gyffredinol wrth gefn.**

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDILEU DYLEDION

9.1 Ar gais yr Awdurdod, cyflwynodd y Trysorydd adroddiad blynyddol yn rhestru pob dyled dan £5,000 a ddilëwyd fel un anadferadwy. Roedd yr adroddiad yn rhestru dyledion drwg a ddilëwyd rhwng 1af Ebrill 2010 a 31ain Mawrth 2011, gyda'u cyfanswm yn £2,376.47.

9.2 Cafodd cwestiynau'r Aelodau ynglŷn â'r dyledion drwg eu hateb gan swyddogion, ac o ran gwerthu offer, cytunodd y Rheolwr Cyllid i ddarparu rhagor o fanylion ynglŷn â math yr offer a werthwyd.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 CRYNODEB O HYNT ADOLYGIADAU MEWNOL

10.1 Cafodd yr Aelodau y diweddaraf gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân ynglŷn â hynt nifer o adolygiadau mewnol a oedd yn cyfrannu'n uniongyrchol at Amcanion Strategaeth Adnoddau'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2011/12.

10.2 Roedd yr adolygiadau a'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys:

- gweithredu strwythur newydd ar gyfer swyddogion
- cyflwyno ffyrdd newydd o gyflwyno'r gwaith diogelwch tân deddfwriaethol
- adolygu staff cefnogol
- ail-gynllunio'r gwaith cefnogi a datblygu'r ochr weithredol, a'r gwaith hyfforddi, datblygu a dysgu.

10.3 Nodwyd bod y strwythur newydd ar gyfer swyddogion wedi dod i fodolaeth ar 1 Ebrill 2011. Bydd manteision y strwythur newydd i'r ochr weithredol yn cael ei fonitro bob tri mis, a bydd arbedion yr ailstrwythuro, o ran arian parod, yn £450,000, gyda hwnnw'n cael ei fonitro'n fewnol hefyd.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi'r hynt hyd yn hyn o'i gymharu ag Amcanion y Strategaeth Adnoddau.**

11 GWEITHGAREDDAU DIOGELWCH CYMUNEDOL

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân i roi gwybod i'r Aelodau am hynt gweithgareddau diogelwch cymunedol yn 2010/2011, ac i adrodd bod 36,900 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn.

11.2 Nodwyd bod gweithio mewn partneriaeth wedi tynnu sylw at bwysigrwydd protocolau rhannu gwybodaeth er mwyn adnabod unigolion sy'n agored i beryglon. Roedd y protocolau rhannu gwybodaeth presennol wedi cael eu hadolygu, ac roedd Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth am y tro cyntaf.

11.3 Lansiodd y Gwasanaeth fenter o'r enw 'Fire Cruz' i ddarparu addysg diogelwch ar y ffyrdd i rai rhwng 16 a 25 mlwydd oed; roedd wedi profi'n llwyddiannus gyda dros 5,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r Rhaglen Addysg Ysgolion yn parhau, gyda staff yn ymweld ag ysgolion i drafod diogelwch tân; mae 27,000 o blant wedi dod i sesiwn ymwybyddiaeth yn ystod y flwyddyn.

11.4 Mae cynllun y Ffenics yn parhau i fod yn elfen bwysig o waith y Gwasanaeth gyda phobl ifanc, ac mae'n faes pwysig sydd wedi ei nodi yn strategaeth Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru. Cymerodd dros 300 o unigolion ran yng nghynllun y Ffenics yn ystod 2010-11. Roedd y Cyng. Dunn yn dymuno diolch i bawb oedd yn ymwneud â chynllun y Ffenics am eu gwaith rhagorol gyda phobl ifanc, ac ategwyd hyn gan yr Aelodau eraill.

11.5 I ateb cwestiwn gan y Cyng Barratt am swyddi'r Peiriant Ysgol ac Esgynlawr (ALP) yn symud i'r tîm Diogelwch Cymunedol, nodwyd nad oedd hyn wedi cael effaith o fath yn y byd ar y defnydd o'r peiriannau mewn digwyddiadau o fewn ardal gogledd Cymru.

11.6 **PENDERFYNWYD nodi**

**(i) llwyddiant y Gwasanaeth yn mynd y tu hwnt i darged yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref;**

**(ii) datblygiad parhaus y gweithgarwch diogelwch cymunedol ym maes addysg am wrthdrawiadau ar y ffyrdd ac ymyriadau ieuenctid.**

Gadawodd y Cyng. David Kelly y cyfarfod ar yr adeg hon.

12 CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi'r wybod ddiweddaraf i'r Aelodau am nifer y cwynion a llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law gan y cyhoedd yn y cyfnod rhwng Ebrill 1af 2010 a Mawrth 31ain 2011.

12.2 Er bod 40 o gwynion wedi dod i law, dim ond 10 oedd wedi cael eu profi. Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks fod pum cŵyn yn ymwneud â gyrru wedi dod i law, ac yng nghyd-destun y 16,418 o deithiau cerbydau brys yr oedd y Gwasanaeth wedi eu gwneud, roedd hynny'n nifer isel iawn. Cadarnhawyd bod pob cŵyn yn cael ei harchwilio, a'r unigolion sy'n gyfrifol yn cael rhagor o hyfforddiant a'u hatgoffa am safon y gyrru sydd ei angen o fewn y Gwasanaeth.

12.3 Nodwyd bod 81 o lythyrau, cardiau, e-byst a negeseuon Facebook wedi dod i law yn ystod y flwyddyn yn mynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd ynglŷn â'r Gwasanaeth. Roedd y llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yn cynnwys ymweld ag ysgolion, digwyddiadau ar yr ochr weithredol a gweithio mewn partneriaeth.

12.4 **PENDERFYNWYD nodi nifer y cwynion a mynegiannau o werthfawrogiad a ddaeth i law.**

13 Y BWRDD ARWEINYDDIAETH RHANBARTHOL, BWRDD Y RHAGLEN ADOLYGU AC EFFEITHLONRWYDD A GWELLA PARTNERIAETHAU

13.1 Rhoddodd y Clerc y diweddaraf am y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol a sefydlwyd yng ngogledd Cymru. Y prif ddatblygiad o ddiddordeb i'r Awdurdod Tân ac Achub yw'r Pwyllgor Cymunedau mwy Diogel a fydd yn cael ei sefydlu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithio tuag at adnabod meysydd posib ar gyfer cydweithio. Mae Compact wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru, a bydd hwnnw'n cael ei arwyddo gan gyrff cyhoeddus i ddangos ymrwymiad i gydweithio.

13.2 Ar yr adeg hon, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau am benodiad Brian Fraser yn Ymgynghorydd Tân i'r Gweinidog.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

14 POLISI RHEOLAETH AUR

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am bolisi'r Gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth Rheolaeth Aur mewn digwyddiadau ac argyfyngau mawr.

14.2 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y prif swyddogion yn gweithio yn ôl trefn rota er mwyn darparu gofal i fod ar alwad 24/7 i sicrhau bod Rheolaeth Aur (Tân) ar gael pan fo natur y digwyddiad yn golygu bod angen y lefel hon o gefnogaeth a chyngor strategol.

14.3 Mae'r polisi Rheolaeth Aur yn darparu datblygiad glir a chynhaliaeth i lwybr cymhwyster. Mae hyfforddiant cychwynnol ac asesiadau parhaus yn cael eu hadnabod ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau bod Rheolwyr Aur (Tân) wedi cael yr holl sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol sydd eu hangen i gyflawni'r rôl.

14.4 Cododd y Cyng. Skelland fater ynglŷn â phwysigrwydd cyfraniad lleol a gwybodaeth leol ar adeg digwyddiad mawr. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân y bydd rheolaeth aur amlasiantaethol yn wastad yn cynnwys cyfraniad yr awdurdod lleol, fel arfer trwy'r Prif Weithredwr.

14.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

15 CYNLLUN LWFANSAU'R AELODAU

15.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau:

- ystyried a ddylid newid y taliadau lwfans milltiroedd cymeradwy (TLMC / ALAP) ar gyfer Cynllun Lwfansau'r Aelodau yn dilyn y newid diweddar i'r taliadau yng Nghyllideb 2011; a
- chymeradwyo mân newidiadau i'r Cynllun cyfredol.

15.2 Wrth gyhoeddi'r Gyllideb, dywedodd Canghellor y Trysorlys y byddai'r TLMP ar gyfer y 10,000 cyntaf o filltiroedd yn cael ei godi o 40c i 45c y filltir, gan ddod i rym ar 6 Ebrill 2011. Nodwyd bod y Panel Cymru ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol, nad oes ganddo ddylanwad uniongyrchol dros Gynlluniau'r Awdurdodau Tân ac Achub, wedi penderfynu'n ddiweddar i newid yr hyn y mae wedi ei bennu ynglŷn â threuliau milltiroedd i fod yr un fath â'r TLMP, h.y. 45c y filltiroedd. Fodd bynnag, oherwydd y ffordd y mae Cynllun yr Awdurdod wedi ei eirio, byddai'n rhaid cael penderfyniad penodol i newid y gyfradd petai'r Awdurdod yn bwriadu mabwysiadu'r TLMC newydd.

15.3 Gofynnodd y Cyng George ynglŷn â'r sefyllfa mewn Awdurdodau Lleol trwy'r gogledd, a gofynnodd y Cyng M Ll Davies a oedd treuliau staff yn cael eu newid. Cadarnhaodd y Trysorydd nad oedd gan y naill fater na'r llall unrhyw berthynas â'r Awdurdod Tân ac Achub, ac mai penderfyniad yr Aelodau'n unig ydoedd.

15.4 Dywedodd y Cyng G C Evans y byddai'n well ganddo weld y lwfans milltiroedd yn aros ar y gyfradd gyfredol, sef 40c y filltir.

15.5 Cynigiodd y Cyng George codi'r lwfans milltiroedd i 45c y filltir, ac eiliwyd hyn gan y Cyng A M Jones. Gofynnwyd i'r Aelodau bleidleisio trwy godi dwylo; roedd pum Aelod o blaid ac 13 yn erbyn.

15.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) yn dilyn pleidlais fwyafrifol, y dylai'r gyfradd filltiroedd ar gyfer 2011/12 aros ar 40c y filltir;**
**(ii) cymeradwyo'r mân newidiadau i Gynllun Lwfansau'r Aelodau.**

16 COFNODION ER GWYBODAETH

16.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 9fed o Fai 2011 er gwybodaeth.

16.2 **PENDERFYNWYD nodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed o Fai 2011, nad oedd wedi eu cadarnhau.**

RHAN II

17 GORSAF DÂN WRECSAM

17.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks gyflwyniad i'r Aelodau ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â phrosiect Tân ac Ambiwlans Wrecsam. Nodwyd bod yr heddlu wedi tynnu'n ôl o'r prosiect yn Chwefror 2011 gan nad oedd bellach yn cwrdd â'u hanghenion busnes hwy. Roedd yr achos busnes amlinellol wedi ei baratoi yn 2010, ac wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2011.

17.2 Roedd y safleoedd blaenorol a gynigwyd wedi profi'n anaddas. Mae safle newydd wedi cael ei nodi, ac astudiaeth ddichonoldeb wedi ei chomisiynu gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Atgoffwyd yr Aelodau mai Ystadau Iechyd Cymru fydd yn talu am y tir, a bod cyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei gapio ar £5 miliwn. Hefyd, atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân nad oedd yr orsaf dân bresennol yn addas i'r pwrpas a'i bod yn annheg disgwyl i'r staff weithio yn yr amgylchiadau hynny; os na cheid ateb yn fuan ynglŷn â gorsaf newydd, byddai'n rhaid gwneud gwaith ar yr orsaf i alluogi staff i barhau i weithio yno.

17.3 Croesawyd y diweddariad gan y Cyng. George, a nodi bod yr Aelod o Lywodraeth Cymru dros Wrecsam bellach yn Weinidog Iechyd, a'i bod wedi bod yn gefnogol i'r prosiect hyd yn hyn ac y bydd, gobeithio, yn cynorthwyo i symud y prosiect yn ei flaen yn ei rôl newydd.

17.4 Darperir diweddariad pellach yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 18fed o Orffennaf. Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks a'i gydweithwyr am eu gwaith ar y prosiect.

17.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnodion gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:________________________________Dyddiedig:____________________**